Bute Energy Cymuned

# Cofnodion cyfarfod Grŵp Cyswllt Cymunedol Parc Ynni Waun Hesgog

Nos Iau 21 Mai 2026

## Presenoldeb

### Yn bresennol

- Eluned Lewis (EL) – Rheolwr Buddsoddi Cymunedol, Bute Energy
- Kadun Rees (KR) – Cydlynydd Materion Allanol, Bute Energy
- Sophie Jones (SJ) – Rheolwr Prosiect, Bute Energy
- Sophie Bloomfield – (SB) – Rheolwr Prosiect Cyswllt, Bute Energy
- Cerys Hulbert-Scott (CHB) – Cyfarwyddwr Cyswllt, Savills
- Catrin Davies (CD) – Cynghorydd Sir
- Siôn Pennant (SP) – Cyngor Cymuned Ceulan a Maesmawr
- Jacq Brill (JB) – Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed
- Marie Woodling (MW) – Ysgol Tal-y-bont

### Ymddiheuriadau

- Cyngor Cymuned Llangynfelyn

## Trosolwg o’r agenda

1. Croeso a chyflwyniadau
2. Ymddiheuriadau
3. Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf
4. Diweddariad gan Grŵp Flodees Tal-y-bont
5. Diweddariad ar Brosiect Parc Ynni Waun Hesgog
6. Diweddariad ar Sefydliad Elusennol Corfforedig ac Ymddiriedolwyr
7. Unrhyw fater arall
8. Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf

Trafodaethau a nodiadau

## 1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

*Croesawodd KR bawb i'r cyfarfod, a chyflwynodd pawb eu hunain gan fynd o gwmpas y bwrdd*

**Camau gweithredu**

- Gwella'r sain / trefniadau cyfarfodydd hybrid ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.
- Darparu deunyddiau mapio a chynlluniau printiedig mwy o faint mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 2. Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf

*Bwriodd y grŵp olwg ar y camau gweithredu oedd heb eu cymryd yn dilyn cyfarfod blaenorol y Grŵp Cyswllt Cymunedol. Cynhaliwyd trafodaeth ychwanegol hefyd ynghylch arolygon ymgynghori ac ymatebion ymgysylltu cymunedol a ddaeth i law yn ystod y broses ymgynghori anstatudol.*

- Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ymatebion i'r arolwg a lefelau ymgysylltiad cymunedol yn dilyn yr ymgynghoriad anstatudol. Cadarnhaodd Bute Energy fod tua 7,043 o bobl yn byw o fewn 5km i ffin llinell goch y safle a nodwyd bod 572 o ymatebion wedi dod i law drwy'r broses arolwg ddigidol yn unig, ac eithrio sylwadau ysgrifenedig ac adborth ychwanegol drwy'r wefan.
- Holodd yr aelodau am ddadansoddiad o'r ymatebion cadarnhaol, niwtral a negyddol, gyda Bute Energy yn cadarnhau bod tua 61% o'r ymatebion wedi'u categoreiddio fel rhai niwtral i gadarnhaol. Gofynnwyd am ddadansoddiad mwy manwl.
- Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch rôl a phwrpas y Grŵp Cyswllt Cymunedol, cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd, a hygyrchedd gwybodaeth am y prosiect drwy'r wefan a'r broses ymgynghori.
- Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch oedi o ran cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd blaenorol a chodwyd cwestiynau ynghylch tryloywder cyffredinol yr ymgynghoriad a hygyrchedd gwybodaeth.

**Camau gweithredu**

- **KR:** Darparu dadansoddiad manwl o ymatebion yr ymgynghoriad yn ôl categori.
- **KR:** Paratoi crynodeb esboniadol cryno yn nodi pwrpas a chylch gwaith y Grŵp Cyswllt Cymunedol.
- **Bute Energy:** Parhau i gylchredeg a chyhoeddi cofnodion cyfarfodydd sydd wedi'u cymeradwyo o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

## 3. Diweddariad o'r cyfarfod gyda Grŵp Floodees Tal-y-bont

*Rhoddwyd diweddariad ynghylch y cyfarfod a gynhaliwyd gyda'r grŵp llifogydd lleol ar 30 Mawrth 2026. Roedd cynrychiolwyr o Bute Energy yn bresennol ochr yn ochr ag ymgynghorwyr technegol, gan gynnwys arbenigwr hydroleg y prosiect. Canolbwyntiodd y drafodaeth i raddau helaeth ar risg llifogydd, strategaeth draenio, adfer mawndir a phryderon hydrolegol ehangach sy'n gysylltiedig ag ardal y prosiect.*

- Tynnodd cynrychiolwyr cymunedol sylw at natur anarferol a sensitif yr amodau hydrolegol yn lleol, gan bwysleisio bod risg llifogydd yn dal i fod yn un o'r prif bryderon yn y gymuned. Yn ystod y drafodaeth, tynnwyd sylw at bryder parhaus ynghylch effeithiau amgylcheddol cronnus posibl, yn enwedig o ystyried natur hydrolegol sensitif yr ardal a'r problemau hanesyddol oedd wedi'u profi yn lleol.
- Codwyd pryderon hefyd ynghylch risgiau o halogi, gan gynnwys halogion plwm hanesyddol yn yr ardal, a'r goblygiadau posibl a allai fod i hyn ar gyfer gwaith adeiladu a draenio yn y dyfodol.
- Cydnabu Bute Energy fod y prosiect yn dal i fod yn ei gamau cynnar a bod atebion peirianneg a lliniaru manwl yn dal i esblygu drwy asesiadau technegol ac arolygon amgylcheddol parhaus. Cydnabuwyd bod nifer sylweddol o bethau yn dal i fod yn anhysbys ar y pwynt hwn yn y broses, gan gyfrannu at bryder parhaus ymhlith trigolion lleol.
- Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd cynnal ymgysylltiad parhaus, tryloywder a chyfathrebu rheolaidd wrth i'r prosiect ddatblygu, gan fynegi rhwystredigaeth hefyd nad oes atebion peirianneg, draenio a lliniaru manwl ar gael eto yng nghyfnod presennol y prosiect.
- Cydnabu Bute Energy fod y prosiect yn dal i fod yn ei gam dylunio cynnar a chadarnhaodd y bydd arolygon amgylcheddol, asesiadau hydrolegol ac astudiaethau technegol yn parhau cyn i gynlluniau seilwaith terfynol a chynigion lliniaru gael eu datblygu.
- Ailadroddodd tîm y prosiect ei ymrwymiad i gynnal ymgysylltiad drwy gydol y camau cyn-ymgeisio ac ôl-gydsyniad, gyda disgwyl i

ymgysylltiad personol pellach rhwng ymgynghorydd hydroleg y prosiect a chynrychiolwyr lleol fod yn rhan o'r broses ymgynghori barhaus.

**Camau gweithredu**

- **SJ:** Rhannu nodiadau o'r cyfarfod gyda Grŵp y Floodees gydag aelodau'r Grŵp Cyswllt Cymunedol.
- **SJ:** Trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb yn y dyfodol rhwng arbenigwyr hydroleg a chynrychiolwyr lleol pan fo hynny'n briodol.
- **SJ:** Pan fo hynny'n briodol, rhoi diweddariad i aelodau am gynnydd o ran asesiadau risg llifogydd a draenio.

## 4. Diweddariad ar Brosiect Parc Ynni Waun Hesgog

*Cyflwynwyd y trosolwg diweddaraf o'r prosiect yn ymwneud â chynllun tyrbinau, ystyriaethau mynediad, arolygon amgylcheddol a'r gwaith parhaus o ddatblygu'r dyluniad*

- Cadarnhaodd Bute Energy fod y cynllun dangosol presennol yn cynnwys 37 o dyrbinau gydag uchder i ben y llafnau o hyd at 220 metr ar y mwyaf a chapasiti cynhyrchu amcangyfrifedig o hyd at 248MW.
- Roedd y drafodaeth hefyd yn cynnwys trafod coridorau mewnol posibl yn cysylltu rhannau dwyreiniol a gorllewinol y safle, ochr yn ochr ag adolygiadau parhaus o strategaethau mynediad posibl. Nodwyd wrth yr aelodau bod arolygon amgylcheddol yn dal i fynd rhagddynt ar draws sawl disgyblaeth dechnegol, gan gynnwys ecoleg, adareg, mawn, hydroleg, rheoli cynefinoedd ac asesu sŵn.
- Codwyd cwestiynau ynghylch hyd a lled ffin y llinell goch, y defnydd o dir y tu hwnt i leoliadau tyrbinau, a'r angen posibl am fannau storio deunyddiau a chytiau adeiladu dros dro yn ystod y gwaith adeiladu. Esboniodd Bute Energy fod ffin ehangach y datblygiad yn cynnig hyblygrwydd ar gyfer rheoli cynefinoedd, seilwaith dros dro a threfniadau mynediad, a hefyd yn adlewyrchu patrymau perchnogaeth tir. *Canolbwyntiodd y drafodaeth hon ar y pynciau canlynol:*
- Hyd a lled ffin y llinell goch.
- Pam mae rhai parseli o dir yn ymestyn y tu hwnt i leoliadau'r tyrbinau.
- Lleoliadau gweithfeydd sypynnu a chytiau adeiladu arfaethedig.
- Mannau storio ar gyfer cydrannau a deunyddiau tyrbinau.
- Llwybrau trafnidiaeth a gwaith lledu ffyrdd posibl.
- Hyfywedd llwybrau mynediad gorllewinol.

Bute Energy Cymuned

## Diweddariad Mast Meteorolegol

*Rhoddwyd diweddariad ynghylch y ceisiadau arfaethedig ar gyfer mast meteorolegol.*

- Cadarnhaodd SJ fod un cais cynllunio ar gyfer mast meteorolegol wedi'i gyflwyno i Gyngor Sir Ceredigion erbyn hyn. Nodwyd wrth yr aelodau bod cais wedi bod am wybodaeth ategol ychwanegol fel rhan o'r broses gynllunio, gan gynnwys adroddiadau treftadaeth ac awyrenneg.
- Yn ystod y drafodaeth, cwestiynodd y mynychwyr gyfeiriadau at adroddiadau amgylcheddol ac ymatebion i ymgyngoriadau a gyflwynwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Codwyd pryderon nad oedd gwybodaeth amgylcheddol ddisgwyliedig wedi'i chynnwys yn y dogfennau cais a gyhoeddwyd. Rhoddodd SJ eglurhad pellach y bydd gwybodaeth y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn amdani yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r broses barhaus o wneud ceisiadau ac ymgynghori.
- Cadarnhaodd SJ fod ail gais ar gyfer mast meteorolegol yn cael ei ystyried ac y byddai rhywbeth penodol yn cael ei gyflwyno ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud ar y cais cyntaf.

## Diweddariad ar y Gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith (IC)

*Rhoddodd Cerys Hulbert-Scott ddiweddariad manwl ynghylch y newid o'r gyfundrefn Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) i'r gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith (IC).*

- Eglurwyd bod y gyfundrefn DNS wedi dod i ben yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2025 a'i bod bellach wedi'i disodli gan y gyfundrefn Cydsyniad Seilwaith o dan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024.
- Bwriad y drefn newydd yw symleiddio'r broses gydsynio ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol drwy gael gwared ar gyfres o gydsyniadau annibynnol a chyflwyno un broses gydsynio unedig yn eu lle. Rhoddir mwy o bwyslais ar ymgynghori ymlaen llaw, casglu tystiolaeth a chamau statudol sydd wedi'u diffinio'n glir.
- Roedd y drafodaeth hefyd yn ymdrin â gwahaniaethau o ran disgwyliadau rhaglenni ac amserlenni penderfynu rhwng systemau DNS ac IC. Cododd yr aelodau gwestiynau ynghylch amserlenni prosiectau diwygiedig, camau ymgynghori statudol a chyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen.

- Cadarnhaodd SJ y byddai'r dyddiadau presennol a ddangosir ar y wefan yn cael eu tynnu tan y gellir cwblhau a chyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen.
- Mynegodd CD bryder y gallai cymunedau fod yn brin o'r arbenigedd a'r adnoddau sydd eu hangen i ymgysylltu â phrosesau cynllunio cymhleth. Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch rôl awdurdodau lleol, buddiannau’r Parc Cenedlaethol a chynghorau cymuned.
- Tynnodd yr aelodau sylw ymhellach at bwysigrwydd sicrhau bod lleisiau lleol yn cael eu cynrychioli'n briodol.

**Camau gweithredu**

- **SJ:** Darparu mapiau safle cliriach a mwy o faint mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.
- **SJ:** Pan fo hynny'n briodol, darparu diweddariadau am waith asesu llwybrau trafnidiaeth.
- **SJ:** Sicrhau bod aelodau'n cael gwybod am gynnydd gyda'r cais ar gyfer mast meteorolegol ac unrhyw beth pellach fydd yn cael ei gyflwyno.
- **SJ:** Dileu dyddiadau rhaglen sydd wedi dyddio o wefan y prosiect.
- **SJ:** Cyhoeddi dyddiadau rhaglen wedi'u diweddaru ar ôl iddynt gael eu cadarnhau.
- **SJ:** Cylchredeg eglurhad pellach ynghylch Adroddiadau Effaith Lleol a chyfleoedd i gymunedau gymryd rhan.

## 5. Diweddariad ar Sefydliad Elusennol Corfforedig ac Ymddiriedolwyr

*Darparodd EL ddiweddariad am y Sefydliad Elusennol Corfforedig*

- Esboniodd EL fod Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO) wedi'i ffurfio a'i fod yn agosáu at gael ei gofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru. Dywedwyd y byddai'r sefydliad yn gweithredu'n annibynnol, gydag amddiffynfeydd cyfreithiol a threfniadau llywodraethu yn cael eu darparu drwy ei statws elusennol.
- Nodwyd y byddai cytundeb cyfreithiol ffurfiol yn bodoli rhwng y Sefydliad Corfforedig Elusennol a phrosiect y Parc Ynni, gyda'r bwriad y byddai'r sefydliad yn goruchwylio'r gwaith o weinyddu trefniadau ariannu cymunedol. Eglurwyd, er y byddai strwythur llywodraethu cenedlaethol yn bodoli drwy'r Sefydliad Corfforedig Elusennol, ei bod yn dal i fod yn fwriad sefydlu paneli cymunedol lleol i sicrhau cynrychiolaeth leol a mewnbwn i benderfyniadau ariannu.

- Cadarnhaodd EL fod pedwar ymddiriedolwr o wahanol rannau o'r wlad wedi cael eu hadnabod i gefnogi'r gwaith o lywodraethu'r sefydliad, gan gynnwys cynrychiolwyr sydd â chefndir mewn gwaith datblygu cymunedol, sefydliadau elusennol a llywodraethiant cyllid cyhoeddus. Eglurwyd y byddai'r ymddiriedolwyr yn darparu goruchwyliaeth a llywodraethiant, tra byddai paneli lleol yn cadw rôl bwysig o ran siapio blaenoriaethau lleol a dosbarthu buddion cymunedol.
- Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch perchnogaeth hirdymor, strwythurau ariannu a phryderon ynghylch gwerthu prosiectau i drydydd partïon yn y dyfodol. Cododd cynrychiolwyr cymunedol bryderon ynghylch a fyddai perchnogion y dyfodol yn parhau i anrhydeddu ymrwymiadau o ran budd cymunedol. Ymatebodd EL y byddai amddiffynfeydd yn cael eu hymgorffori drwy gytundebau cyfreithiol, rhwymedigaethau cynllunio, trefniadau datgomisiynu a strwythur arfaethedig y Sefydliad Corfforedig Elusennol i sicrhau bod ymrwymiadau ariannu cymunedol yn dal i gael eu diogelu beth bynnag am unrhyw newidiadau perchnogaeth yn y dyfodol.

## 6. Unrhyw fater arall

### Effeithiau Llywodraeth newydd Cymru ac Ynni Cymunedol

- Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch disgwyliadau Llywodraeth newydd Cymru ar gyfer perchnogaeth a chyfranogiad cymunedol mewn prosiectau ynni adnewyddadwy.
- Cwestiynodd yr aelodau sut y gallai cymunedau lleol gymryd rhan yn realistig mewn strwythurau perchnogaeth yng nghyd-destun datblygiadau ynni adnewyddadwy graddfa fawr. Esboniodd EL a KR fod buddsoddi drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn cyfrannu at dargedau perchnogaeth Cymru ac yn rhan o'r agwedd perchnogaeth gymunedol ehangach sy'n cael ei datblygu.
- Cafwyd trafodaeth bellach oedd yn canolbwyntio ar astudiaethau dichonoldeb ynni cymunedol a chyfleoedd ar gyfer mentrau budd lleol sy'n gysylltiedig â seilwaith ynni adnewyddadwy. Cyfeiriwyd at enghreifftiau o brosiect Caerffili, gan gynnwys asesiadau yn ymwneud â chynlluniau micro-hydro, seilwaith gwefru cerbydau trydan, solar ar doeon, solar ar y llawr a chyfleoedd ynni cymunedol ehangach.
- Roedd y drafodaeth hefyd yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â seilwaith grid a chapasiti rhwydwaith lleol yng nghefn gwlad y

canolbarth, yn enwedig wrth ystyried cynlluniau cynhyrchu llai sydd o dan arweiniad y gymuned.

- Ymhellach, cwestiynodd aelodau'r Grŵp Cyswllt Cymunedol a fyddai gan gymunedau gwledig y canolbarth y capasiti seilwaith sydd ei angen ar gyfer cynlluniau ynni lleol. Nodwyd argaeledd y grid ac is-orsafoedd lleol fel cyfyngiadau mawr.

### Camau gweithredu

- **CD**: Anfon eu rhestr o gwestiynau gan Gyngor Cymuned at Bute Energy er mwyn cael ymatebion mwy manwl.
- **EL:** Parhau i roi diweddariadau ynghylch y gwaith o ddatblygu strategaeth ynni gymunedol
- **EL:** Darparu enghreifftiau yn y dyfodol o fodelau perchnogaeth a budd cymunedol os oes rhai ar gael.

## 7. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

### Cyfarfod nesaf

**Dyddiad:** i'w gadarnhau

**Amser:** i'w gadarnhau

**Lleoliad:** i'w gadarnhau

Bute Energy Cymuned

## Crynodeb o'r camau gweithredu

| Cam Gweithredu | Arweinydd | Erbyn |
|---|---|---|
| Gwella'r sain / trefniadau cyfarfodydd hybrid ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol | KR | Cyfarfod nesaf |
| Darparu dadansoddiad manwl o ymatebion yr ymgynghoriad yn ôl categori | KR | Cyfarfod nesaf |
| Paratoi crynodeb esboniadol cryno yn nodi pwrpas a chylch gwaith y Grŵp Cyswllt Cymunedol | KR | Cyfarfod nesaf |
| Parhau i gylchredeg a chyhoeddi cofnodion cyfarfodydd sydd wedi'u cymeradwyo o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt | Bute Energy | Parhaus |
| Rhannu nodiadau o'r cyfarfod gyda Grŵp y Floodees gydag aelodau'r Grŵp Cyswllt Cymunedol | SJ | Cyn gynted â phosibl |
| Trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb yn y dyfodol rhwng arbenigwyr hydroleg a chynrychiolwyr lleol pan fo hynny'n briodol | SJ | I'w benderfynu |
| Pan fo hynny'n briodol, rhoi diweddariad i aelodau am gynnydd o ran asesiadau risg llifogydd a draenio | SJ | Parhaus |

| Cam Gweithredu | Arweinydd | Erbyn |
|---|---|---|
| Darparu mapiau safle cliriach a mwy o faint mewn cyfarfodydd yn y dyfodol | SJ | Cyfarfod nesaf |
| Pan fo hynny'n briodol, darparu diweddariadau am waith asesu llwybrau trafnidiaeth | SJ | Parhaus |
| Sicrhau bod aelodau'n cael gwybod am gynnydd gyda'r cais ar gyfer mast meteorolegol ac unrhyw beth pellach fydd yn cael ei gyflwyno | SJ | Parhaus |
| Dileu dyddiadau rhaglen sydd wedi dyddio o wefan y prosiect | SJ | Cyn gynted â phosibl |
| Cyhoeddi dyddiadau rhaglen wedi'u diweddaru ar ôl iddynt gael eu cadarnhau | SJ | I'w benderfynu |
| Cylchredeg eglurhad pellach ynghylch Adroddiadau Effaith Lleol a chyfleoedd i gymunedau gymryd rhan | SJ | Cyn gynted â phosibl |
| Anfon eu rhestr o gwestiynau gan Gyngor Cymuned at Bute Energy er mwyn cael ymatebion mwy manwl | CD | Cyn gynted â phosibl |
| Parhau i roi diweddariadau ynghylch y gwaith o ddatblygu strategaeth ynni gymunedol | EL | Parhaus |
| Darparu enghreifftiau yn y dyfodol o fodelau | EL | Parhaus |

| Cam Gweithredu | Arweinydd | Erbyn |
| --- | --- | --- |
| perchnogaeth a budd cymunedol os oes rhai ar gael | | |